Y Crëyr Glas

Gweld cyfle

Mae'r Crëyr Glas yn aderyn mawr. Bydd yn bwyta pysgod trwy eu dal gyda'i big mawr pigfain. Un diwrnod roedd Crëyr yn sefyll yn nŵr yr afon. Wrth edrych i'r dŵr gwelai laweroedd o bysgod mawr tew yn nofio yma thraw. Roedd y pysgod tewion yn nofio o gwmpas ei draed. Buasai wedi gallu dal pysgodyn neu ddau yn hawdd iawn. Ond meddai wrtho'i hun. "Na, mi ydw i am ddisgwyl nes bydd hi'n amser cinio. Mi fydda i bron â llwgu erbyn hynny." I ffwrdd â fo i gyfeiriad y bont oedd yn croesi'r afon.

Pan ddaeth hi'n amser cinio daeth yn ôl at lan yr afon. Cerddodd yn hamddenol i ganol y dŵr. "Dyma gyfle'n awr i ddal un o'r pysgod mawr tew," meddai. Ond pan edrychodd i'r dŵr roedd y pysgod mawr tew wedi diflannu, bob un ohonyn nhw. Dim ond pysgod bach oedd yn nofio yn y dŵr! Dydw i ddim am fwyta'r pysgod bach. Mi arhosai, efallai bydd y pysgod mawr wedi dod yn ôl ymhellach ymlaen," meddai.

I ffwrdd â fo tua'r mynydd. Bu'n hedfan o gwmpas y mynydd am awr neu ddwy. Erbyn hyn roedd eisiau bwyd yn arw iawn. Roedd yn edrych ymlaen am ddal pysgodyn tew, braf. Aeth i lawr at lan yr afon. Cerddodd i mewn i'r dŵr. Edrychodd o'i gwmpas. Erbyn hyn roedd hyd yn oed y pysgod bychain wedi diflannu. Roedd y Crëyr bron â llwgu eisiau bwyd.

"Mi af am dro unwaith eto," meddai, ac i ffwrdd â fo i gyfeiriad y dyffryn. Bu'n hedfan i fyny ac i lawr y dyffryn ddwywaith, dair. Aeth yn ôl i lan yr afon. Cerddodd i mewn i'r dŵr. Roedd hi'n anodd iawn gweld beth oedd yn y dŵr. Roedd hi'n dechrau nosi erbyn hyn. Gwelai ambell bysgodyn bach, bach yn nofio o gwmpas. Cerddodd yn ôl a blaen ar hyd glan yr afon rhag ofn y gwelai bysgodyn mawr tew yn nofio. Ond doedd dim un pysgodyn mawr tew yn unman dim ond ambell bysgodyn bach, bach.

Erbyn hyn roedd y Crëyr Glas bron a syrthio eisiau bwyd.

Roedd o bron yn rhy wan i gerdded yn ôl a blaen. Suddodd yr haul dros y gorwel. Fel roedd yn barod i godi ar ei adain gwelodd wlithen fechan yn cerdded ar y gwair yn ei ymyl. Trywanodd y wlithen gyda'i big mawr pigfain. Doedd o erioed o'r blaen wedi bwyta gwlithen. Llyncodd hi ar ei union.
"Ych â fi," meddai, "dyna flas drwg oedd ar y wlithen yna ond roedd hi'n well na dim." Cododd ar ei adain a ffwrdd â fo i gyfeiriad y bont. Yn ystod oriau'r nos doedd y Crëyr ddim yn gallu cysgu. Bu'n meddwl am y diwrnod aeth heibio.
"O yfory ymlaen rydw i am gymryd pob cyfle pan ddaw. Pan fydda i yn cael cyfle i fwyta pysgod mawr tew, mi wnaf ar fy union yn hytrach na disgwyl am gyfle arall."
Cododd yn fuan iawn fore drannoeth. Roedd bron â marw eisiau bwyd. Dim ond gwlithen fach â blas drwg arni oedd wedi'i fwyta drwy'r dydd. Aeth i lan yr afon. Cerddodd i'r dŵr. Roedd cannoedd o bysgod mawr tew yn nofio yn y dŵr. Trywanodd un....dau....tri....pedwar ohonyn nhw, un ar ôl y llall. Ymhen dim roedd wedi cael llond ei fol.

O Dduw, wnei di fy nysgu i gydio ymhob cyfle pan ddaw heibio. Amen.

✦ Pam roedd y Crëyr yn gwrthod y cyfle i ddal y pysgod mawr?
✦ Fyddwch chi weithiau'n colli cyfle? Rhowch enghreifftiau.